**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# 'RETHINKING CONSTRUCTION' - CYNNYDD A CHYNIGION

## Diben

1. Rhoi'r diweddaraf ar 'Rethinking Construction' i'r Pwyllgor, yn sgil adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd ar 8 Rhagfyr 1999 (LGE-09-99 (p.3)), a cheisio cefnogaeth y Pwyllgor i gynigion penodol sy'n ymwneud â 'Rethinking Construction'.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Gwnaed cynnydd wrth hybu ymwybyddiaeth o 'Rethinking Construction' ac wrth ymgynghori â chyrff perthnasol. Mae consensws ar y ffordd ymlaen yn fras yn dod i'r amlwg.

## Argymhellion

3. Argymhellir y dylai'r Pwyllgor:

- Nodi'r cynnydd a wnaed.
- Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer camau i'w cymryd yn y dyfodol.
- Ceisio adroddiad pellach am gynnydd ym mis Mehefin 2001.

## Amseru

4. Cyflwynir yr adroddiad hwn gerbron y cyfarfod hwn er mwyn caniatáu amser i'r Pwyllgor gefnogi a chymryd rhan wrth lunio polisïau newydd ar gyfer caffael gwaith adeiladu a ariennir gan y Cynulliad, y gellir eu rhoi ar waith yn 2001-02.

## Cefndir

5. Cyflwynwyd adroddiad y tasglu adeiladu, **'Rethinking Construction'**, gerbron Dirprwy Brif Weinidog Prydain, John Prescott, ym mis Gorffennaf 1998. Rhoddwyd adroddiad manwl ar egwyddorion 'Rethinking Construction' (neu Adroddiad Egan) i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd ar 8 Rhagfyr 1999. Mae 'Rethinking Construction' yn cydnabod tan-berfformiad y diwydiant adeiladu'n gyffredinol ac yn argymell ymrwymiad i welliant parhaus mewn prosesau

adeiladu ledled y diwydiant. Nod 'Rethinking Construction' yw sicrhau gwell ansawdd a gwerth am arian drwy wella'r ffordd y mae'r diwydiant yn gweithredu ac mae'n gwbl gydnaws â datblygu cynaliadwy.

6. Ym 1998 sefydlwyd **Rhaglen Arferion Gorau Adeiladu** (CBPP) yn sgil cyhoeddi 'Rethinking Construction' drwy gymorth Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a Bwrdd y Diwydiant Adeiladu. Ei nod oedd hybu ymwybyddiaeth o arferion gorau a llywio cyrff adeiladu a chleientiaid tuag at y wybodaeth a'r medrau y mae eu hangen ar gyfer newid. Prif ffocws y CBPP yw trawsnewid arferion rheoli a diwylliannau busnes.

7. Un o gynigion allweddol 'Rethinking Construction' oedd sefydlu'r **Fforwm Tai** er mwyn hyrwyddo newid ac arloesi o fewn y diwydiant adeiladu tai. Mae'r Fforwm Tai'n mynd i'r afael â phob agwedd ar dai yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac mae'n dod â phawb sy'n gysylltiedig â'r ddolen adeiladu tai ynghyd, y rheiny sy'n barod i ddod yn rhan o fudiad sy'n hyrwyddo newid ac arloesi ym myd adeiladu, ac sy'n gallu dod yn rhan ohono. Mae'n gwahodd datblygwyr tai i geisio cofrestru Projectau a fydd yn arddangos agweddau allweddol ar arferion gorau ac arloesi.

8. Mabwysiadwyd **partneriaethau** yn llwyddiannus gan y diwydiant adeiladu ar ôl cyhoeddi Adroddiad Latham 'Constructing the Team' ym 1994. Dilynwyd hynny gan ganllawiau arferion gorau Fforwm Adeiladu Reading a oedd yn awgrymu, lle ceir partneriaethau mewn cyfres o brojectau adeiladu, ei bod yn bosibl lleihau costau hyd at 50% ac amser hyd at 80%. Prif fanteision partneriaethau yw rhagweld amser a chostau, a all arwain at leihau costau cyfalaf. Mae'r manteision yn fwy mewn cynghreiriau strategol, tymor hir a phan fo partneriaethau yn cael eu ffurfio ledled y ddolen gyflenwi. Yn y sector cyhoeddus mae agenda'r Gwerth Gorau yn gyfystyr ag egwyddorion partneriaethau.

9. Penodwyd **Grwpiau Gorchwyl** gan y Cynulliad i wneud argymhellion ar gyfer datblygu'r Strategaeth Tai Genedlaethol, a gyhoeddodd eu hadroddiadau terfynol ym mis Mehefin 2000. Yr oedd adroddiad Grp Gorchwyl 1 yn cefnogi egwyddorion Adroddiad Egan yn benodol a gwnaed pedwar argymhelliad:

1. Y gweithgor ad-hoc, i ystyried rhoi arferion Egan ('Rethinking Construction') ar waith yng Nghymru, i'w ailgynnull gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

2. Dylid dilyn egwyddorion Egan ('Rethinking Construction') ar gyfer gwaith adeiladu newydd a gwaith adnewyddu.

3. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ariannu nifer o astudiaethau peilot i roi gwybod am weithredu arferion Egan yng Nghymru.

4. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried yr hyn y gellir ei gynnig o safbwynt hyfforddiant a medrau'n gyffredinol, ar y cyd â chyrff cynrychioliadol y diwydiant.

Mae argymhellion 3 a 4 eisoes yn cael eu hystyried; mae 1 a 2 yn gysylltiedig a chyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

**Ystyriaeth**

10. Yn fras, y cynnydd a wnaed hyd yma:

- Ymgynghorwyd yn anffurfiol â chyrff allweddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu a ariennir gan y Cynulliad - Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Cyngor Cymreig y Diwydiant Adeiladu, Ystadau Iechyd Cymru, ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cynhaliwyd trafodaethau gyda chynrychiolwyr Rhaglen Arferion Gorau Adeiladu Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, y Fforwm Tai a Bwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu (CITB).

- Cofrestrwyd dau gynllun Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a noddir gan y Cynulliad gyda'r Fforwm Tai fel Projectau Arddangos: cynllun Adfywio Betws ac Eglwys Calfaria, Abertawe. Bydd y Fforwm Tai'n rhoi adroddiad ar yr hyn a ddysgir drwy'r projectau hyn. Mae cynllun pellach yng nghamau cyntaf eu datblygu sef ailddatblygu 327 o 'dai parod' yng Nghasnewydd, wedi mabwysiadu egwyddorion 'Rethinking Construction' a phartneriaethau.

- Cafwyd trafodaethau gyda Bwrdd Hyfforddi Diwydiant Adeiladu Cymru ynghylch datblygu cynlluniau hyfforddi i ddarparu ar gyfer medrau rheoli a chrefft a fydd yn cefnogi 'Rethinking Construction'. Nod Bwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu yw darparu gweithlu cymwys, sy'n gyson ag amcanion 'Rethinking Construction'.

- Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn y De-ddwyrain yn gweithredu rhaglen

caffael datblygiadau safon uchel lle ceir adeiladu uniongyrchol, lle cyflogir contractwyr a phenseiri wedi'u dethol ar sail egwyddorion 'Rethinking Construction', gyda'r nod o gyflawni datblygiad mwy cynaliadwy a'r arferion gorau ym maes adeiladu. Y bwriad yw ymestyn hyn ledled rhanbarthau Awdurdod Datblygu Cymru.

- Mae'r Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau, ar y cyd â Rhaglen Arferion Gorau Adeiladu, wedi trefnu Cynhadledd genedlaethol i'w chynnal ar 30 Hydref - 'Pulling Together'. Y bwriad yw hybu ymwybyddiaeth o 'Rethinking Construction', rhoi arweiniad ar ffynonellau gwybodaeth a chyhoeddi amcanion y Cynulliad.

**Cynigion ar gyfer Camau i'w Cymryd yn y Dyfodol**

11. Ar gyfer y flwyddyn **2000-01**, yn ychwanegol i'w chynllun gwaith presennol, mae'r Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau yn cynnig:

- Monitro a gwerthuso pryd y bu i Brojectau Arddangos a gwblhawyd ymgofrestru gyda'r Fforwm Tai.

- Hyrwyddo Partneriaethau fel y dull caffael ar gyfer mwyafrif y datblygiadau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a ariennir gan y Cynulliad ac annog defnyddio partneriaethau mewn meysydd adeiladu eraill.

- Cydweithio â phartner yn y diwydiant adeiladu i gynnal gweithgareddau hyfforddi ac ymwybyddiaeth barhaus sy'n ymwneud â 'Rethinking Construction'.

- Cynnull gweithgorau ad-hoc (yn unol ag argymhelliad Grp Gorchwyl Strategaeth Tai 1) i helpu i lunio polisïau ar gyfer defnyddio dulliau caffael 'Rethinking Construction' mewn gweithgareddau adeiladu a ariennir gan y Cynulliad a'r sector cyhoeddus.

12. Ar gyfer y flwyddyn **2001-02**, bydd yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau yn cynnig y camau canlynol i hybu 'Rethinking Construction' yng Nghymru:

- Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio egwyddorion 'Rethinking Construction' mewn projectau adeiladu yn y sector cyhoeddus, i ategu amcanion ehangach y Cynulliad ar gyfer gwell ansawdd bywyd, gwell gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

- Rhoi arweiniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar brojectau SHG sy'n seiliedig ar egwyddorion 'Rethinking Construction' ac ymgorffori'r arweiniad hwn yn y Gofynion Ansawdd Datblygu. Bydd hyn yn cynnwys partneriaethau fel dull caffael gwaith adeiladu, gan ddibynnu ar arweiniad y Cynulliad.

- Hyrwyddo rhaglen barhaus o weithgareddau a seminarau Arferion Gorau yng Nghymru, ar y cyd â'r Rhaglen Arferion Gorau Adeiladu a chyrff cysylltiedig.

- Archwilio'r dewisiadau ar gyfer darparu cymhellion i ddatblygu cynlluniau a all ddangos arloesedd mewn dulliau dylunio neu gaffael, dulliau adeiladu, effeithlonrwydd ynni a datblygu cynaliadwy.

**Cydymffurfio**

13. Mae'r cynigion a geir yn yr adroddiad hwn yn cydymffurfio ag amcanion allweddol presennol yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau ar gyfer 2000-01 o dan y pennawd 'Gwell Cymru: Gwell Ansawdd Bywyd'.

14. Ceir pwerau'r Cynulliad i bennu'r dulliau gweinyddol sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Adran 18 o'r Ddeddf Tai 1996 ac fe'u trosglwyddwyd i'r Cynulliad a'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad. Hyrwyddo yw natur y cynigion sy'n ymwneud â chyrff eraill. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac ni wnaed unrhyw sylwadau pellach.

15. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

16. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol ynghylch yr adroddiad hwn a nodwyd, os cytunir ar yr argymhellion, na fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad. Telir unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn o gyllideb bresennol yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau.

**Themâu Trawsbynciol**

17. Bydd mabwysiadu egwyddorion 'Rethinking Construction' ar gyfer caffael gwaith adeiladu yng Nghymru'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni llawer o amcanion polisïau'r Cynulliad ar

gyfer Gwell Cymru, yn arbennig y rheiny sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Datblygu Economaidd
- Hyfforddiant Medrau
- Iechyd (Sicrhau Iechyd gyda'n Gilydd)
- Datblygu Cynaliadwy
- yr Amgylchedd

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

18. Nodi cynnwys yr adroddiad, cefnogi'r argymhellion a cheisio adroddiad pellach ar gynnydd.

**Man Cyswllt**

19. Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau / Y Gangen Gwasanaethau Technegol / est 6914.

**Camau i'w Cymryd yn Lloegr**

20. Polisi'r Llywodraeth ar gyfer pob Adran sy'n noddi a phob Corff Cyhoeddus Anadrannol cysylltiedig, gan gynnwys y Gorfforaeth Dai, yw rhoi'r egwyddorion a bennir yn Adroddiad 'Rethinking Construction' ar waith erbyn 2003-04. Yn y canllaw ar gyfer y Broses Ddyrannu ar gyfer 2000-01 a 2001-02, mae'r Gorfforaeth Dai wedi pennu ei meini prawf ei hun ar gyfer diffinio 'cydymffurfio ag Egan' (fel y'i disgrifir ganddi) y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu bodloni dros gyfnod o bedair blynedd.

21. Mae'r Gorfforaeth Dai wedi neilltuo £40 Miliwn o gyllid ar gyfer 2001-02 a 2002-03 i roi hwb cychwynnol i raglen o gynlluniau tai arloesol sy'n defnyddio gweithgynhyrchwyr a enwebwyd a fydd yn defnyddio technegau adeiladu oddi ar y safle a thechnegau cyn cydosod. Dyma ddau ddull o sicrhau gwell ansawdd a mwy o effeithlonrwydd o safbwynt defnyddio adnoddau.